Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Canolfan Ddeintyddol Smiles

Dyddiad arolygu: 9 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2016

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7258-7


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Cyd-destun ..... 3

3. Crynodeb ..... 4

4. Canfyddiadau ..... 5

Ansawdd Profiad y Claf ..... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 12

5. Y Camau Nesaf ..... 14

6. Methodoleg ..... 15

Atodiad A ..... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Ganolfan Ddeintyddol Smiles yn 29 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8DP, ar 9 Awst 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Smiles yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Smiles yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

Mae Canolfan Ddeintyddol Smiles yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un deintydd locwm, un therapydd, pedair nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis. Ar adeg ein hymweliad, roedd dwy swydd wag ar gyfer deintyddion.

Mae Canolfan Ddeintyddol Smiles yn eiddo i Integrated Dental Holdings (IDH), sydd hefyd yn berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, mae pob practis y mae IDH yn berchen arno yn cael ei ail-frandio dan yr enw ‘mydentist’.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol Smiles yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ati.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd a pharhaus ar y cyfarpar tân
- Trefnu archwiliadau adolygu gan gymheiriaid
- System arfarniadau blynyddol ffurfiol ar gyfer pob deintydd.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos mwy o wybodaeth hybu iechyd ac ystyried sut y gellid sicrhau bod cyfleusterau cyhoeddus yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, i gael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 19 o holiaduron. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis.  Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "Mae staff y practis yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn. Dim ond gobeithio bod deintyddion eraill i gyd mor gymwynasgar â'r deintyddion yn y practis hwn."
>
> *"Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblemau yn y practis ac rydw i bob amser wedi cael triniaethau da."*
>
> *"Mae'r staff yn llawn gwybodaeth, yn gyfeillgar iawn, ac yn gwneud i chi deimlo'n gartrefol."*
>
> *"Rydw i wedi cael llawer o driniaethau yma ac rydw i bob amser wedi bod yn hapus â'r canlyniad."*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Roeddem o'r farn bod y staff yn broffesiynol a chyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion yn ystod galwadau ffôn.  Roedd yr adborth gan y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth maent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol.

<u>Gofal amserol</u>

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn hysbysu cleifion pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr ac, os byddai angen, byddent yn cynnig gwneud trefniadau eraill.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos wrth fynedfa'r practis. Roedd y rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis hefyd, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

<u>Cadw'n iach</u>

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod gan y practis ddulliau o geisio adborth gan gleifion trwy osod holiaduron yn yr ystafell aros. Gwelsom sampl o ffurflenni adborth wedi'u cwblhau a oedd yn rhoi sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth. Dywedodd staff wrthym fod yr holiaduron yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod unrhyw awgrymiadau/sylwadau'n cael eu trafod a'u hystyried yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd peth gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn yr ardal aros. Cafodd yr amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion yn ymwneud â'r gwahanol fathau o driniaethau, a gofalu am ddannedd plant, ei gydnabod fel arfer da. Roedd un poster yn arddangos gwybodaeth am ganser y geg ac roedd rhai taflenni iechyd y geg wedi'u harddangos. Dylai'r practis hefyd ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r weithdrefn gwyno am ddeintyddiaeth breifat i adlewyrchu'r amserlenni a restrir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.Roedd poster cwynion wedi'i arddangos yn yr ystafell aros, a dywedodd y staff wrthym fod pob cwyn, gan gynnwys pryderon, yn cael ei chofnodi ar system electronig fel y gellir ymdrin â nhw ac er mwyn rhoi sylw i unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen diweddaru'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion am ddeintyddiaeth breifat i adlewyrchu'r amserlenni a restrir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn gwybod i bwy y dylent wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn.

Roedd cynllun adeilad y practis yn hyblyg ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd, a defnyddiwyd rampiau i ganiatáu mynediad o'r tu allan i'r ardal aros/derbynfa ac ar gyfer dwy o'r tair ystafell driniaeth. Roedd y toiled cyhoeddus yn anaddas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, a gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried sut y gellid sicrhau bod y cyfleusterau'n hygyrch i bawb.

Roedd y dderbynfa/ardal aros o gynllun agored. Dywedodd y staff wrthym y cynhaliwyd sgyrsiau preifat mewn ystafell i sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd yn cael eu cadw. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol yn ystod sgyrsiau dros y ffôn er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd yn cael eu cadw.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau amgylcheddol yr oedd y practis yn ymwybodol ohonynt ac roedd ganddynt gynlluniau i'w gweithredu. Yn ogystal, rydym yn argymell y dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid rheolaidd.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Gwelsom fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol. Y dyddiad ar y labeli cynnal a chadw ar y diffoddwyr tân oedd 2014.Gofynnwyd i'r practis roi sylw i'r mater hwn ar frys, ac ar adeg ein hymweliad roeddent wedi gwneud trefniadau i gwblhau'r gwaith hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfarpar tân yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a bod rhaglen barhaus ar waith ar gyfer y gwaith cynnal a chadw.***

Roedd gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi nad oedd un clo ar un o'r biniau'n gweithio. Gwnaeth y practis gymryd camau ar unwaith a chafodd y clo ei atgyweirio.

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Roedd angen cael gorchudd llawr newydd mewn un o'r ystafelloedd triniaeth oherwydd bod cadair ddeintyddol newydd wedi'i gosod. Roedd gan y practis gynlluniau ar waith i gwblhau'r gwaith hwn cyn bod cleifion yn defnyddio'r ystafell driniaeth. Gwnaethom nodi bod y gorchudd ar un gadair yr oedd y staff deintyddol yn ei defnyddio mewn un o'r ystafelloedd triniaeth

wedi rhwygo, ond dywedwyd wrthym fod cadeiriau newydd eisoes wedi'u harchebu.

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc penodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio'n cael eu cadw yn electronig, a chopi wrth gefn yn cael ei gadw
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05, ond gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei greu i roi sylw i unrhyw feysydd a amlygwyd yn ystod yr archwiliad.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio.  Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau a oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben yn cael eu newid yn brydlon. Roedd y practis wedi penodi pobl fel swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn unol â safonau a rheoliadau presennol.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud â gwneud radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd un dystysgrif nad oedd ar gael ar gyfer un deintydd. Anfonodd y practis gopi o'r dystysgrif at AGIC y diwrnod canlynol, ond dylai copi o'r dystysgrif fod wedi bod ar gael mewn ffeil. Mae cynlluniau i recriwtio staff newydd i'r practis, a gwnaethom atgoffa'r rheolwr practis/tîm cydymffurfio i sicrhau bod unrhyw ddeintydd newydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) cyn iddynt gymryd sganiau pelydr-X, a'u bod yn cael copïau o dystysgrifau, gan gynnwys rhai ar gyfer unrhyw ddeintyddion locwm a staff dros dro.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), rhaid i unrhyw un sy'n cymryd sganiau pelydr-X fod wedi diweddaru ei***

[2] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

***hyfforddiant a rhaid meddu ar gofnod o'r hyfforddiant hwn, ac mae hyn ar gyfer unrhyw ddeintyddion locwm a staff dros dro hefyd.***

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn, yn unol â'r gofyn. Wrth archwilio cofnodion cleifion, gwelsom fod gwybodaeth ddigonol wedi'i chofnodi i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-X deintyddol penodol. Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Roedd hyn yn golygu bod y deintydd yn gallu sicrhau bod sganiau pelydr-X da a chlir yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

Gofal effeithiol

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf.

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus am eu gofal.

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.  Mae rhaglen newydd o ddulliau cydymffurfio wedi'i chyflwyno i bob practis IDH, sy'n cynnwys nifer o archwiliadau y mae angen i bob practis eu cwblhau. Bydd y system newydd yn caniatáu i'r tîm cydymffurfio fonitro perfformiad eu practisau i gyd a'r wybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth.

Gwelsom y cynhaliwyd rhai archwiliadau yn y practis, yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau. Cwblhawyd archwiliad blaenorol ym mis Chwefror 2016, ond roedd mewn hen fformat a oedd yn llai manwl. Roedd archwiliad Deoniaeth Cymru wedi'i argraffu oddi ar y wefan ac wedi'i gwblhau yn ystod yr wythnos flaenorol. Roedd yr archwiliad hwn yn fwy manwl, ond nid oedd y dyddiad wedi'i nodi arno. Rhaid nodi'r dyddiad ar bob archwiliad yn y dyfodol i gadw cofnod o bryd y cawsant eu cwblhau. Rydym hefyd yn cynghori'r practis i gofrestru ar gyfer yr archwiliad deoniaeth llawn er mwyn cynnal arferion da.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr ardal ar gael ar gyfer y deintyddion, a oedd yn darparu unrhyw gymorth clinigol yn ôl yr angen, ac a oedd yn cynnal cyfarfodydd un i un a chynlluniau datblygiad personol.

Dywedwyd wrthym nad oedd trefniadau ffurfiol ar waith i'r staff allu cynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd.  Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu o adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau yn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Roedd y practis wedi dod i feddiant Integrated Dental Holdings (IDH) ym mis Ebrill 2015, a dywedwyd wrthym am y gwelliannau a wnaed i'r amgylchedd/cyfleusterau, a hefyd o ran y trefniadau rheoli. Cyfrifoldeb y rheolwr practis yw rheoli’r practis o ddydd i ddydd. Ar adeg ein hymweliad, roedd cynlluniau i reolwr practis newydd gymryd drosodd swydd y rheolwr blaenorol, ac rydym yn argymell y dylid rhannu'r adroddiad hwn â'r rheolwr newydd.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i’w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w gwaith ac i'w datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).Dywedwyd wrthym fod y staff (nyrsio a derbynfa) yn derbyn arfarniadau blynyddol. Nid oedd unrhyw system arfarnu ffurfiol ar waith ar gyfer deintyddion er bod deintyddion yn cael cyfarfodydd un i un. Rydym yn argymell cyflwyno system arfarniadau blynyddol ar gyfer pob deintydd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cyflwyno system arfarniadau blynyddol ar gyfer pob deintydd.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gofnodion yn

cynnwys statws imiwnedd. Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom drafod pa mor bwysig yw sicrhau bod staff yn cael eu hamddiffyn rhag hepatitis B a gwnaethom argymell y dylid mynd ar drywydd hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau ei hunan bod statws imiwnedd pob aelod o'i staff yn ddigonol, yn benodol rhag hepatitis B.***

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu a gweld bod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau'n rheolaidd. Mae polisïau'r practis ar gael i'r staff ar gyfrifiadur ac ar fformat copi caled, a chânt eu diweddaru'n ganolog gan y tîm rheoli. Rhoddwyd sicrwydd inni fod unrhyw newidiadau i bolisïau'n cael eu cyfathrebu i staff.

Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff bob mis a'u bod yn cael eu cofnodi. Roedd rhai o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu yn aneglur o ran cynnwys trafodaethau, ac argymhellwyd y dylid cofnodi cyfarfodydd yn glir fel bod modd eu rhannu ag unrhyw aelodau staff sy'n absennol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod y nodiadau a wneir o gyfarfodydd staff yn nodi'n glir pob trafodaeth a cham gweithredu.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Smiles yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a adnabuwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[3] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[4] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

**Practis Deintyddol Cyffredinol:** **Cynllun Gwella**

**Practis:** **Canolfan Ddeintyddol Smiles**

**Dyddiad yr arolygiad:** **9 Awst 2016**

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Mae angen diweddaru'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion am ddeintyddiaeth breifat i adlewyrchu'r amserlenni a restrir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. | Rheoliad 16 (3) a (4) | Roedd camgymeriad ar y poster o ran yr amser oedd ei angen ar gyfer deintyddiaeth breifat. Cafodd hwn ei ddiwygio'r diwrnod canlynol a chafodd y poster ei ailargraffu a'i arddangos gyda'r raddfa amser gywir. | Y Brif Swyddfa/ Swyddog Rheoleiddio | Cwblhawyd 10/08/2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfarpar tân yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a bod rhaglen barhaus ar waith ar gyfer y gwaith cynnal a chadw. | Safon 2.1 | Mae'r cyfarpar bellach wedi'i brofi a'i ychwanegu i gontract er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn. Mae gan y rheolwr practis raglen gyfrifiadurol newydd hefyd a fydd yn atgoffa bod angen ei wasanaethu fis cyn y dyddiad gofynnol. | Rheolwr Practis/Canolfan Gymorth – Cyfleusterau | Cwblhawyd |
| 10 | Yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), rhaid i unrhyw un sy'n cymryd sganiau pelydr-X fod | Rheoliad 11 (1), (2), (4) a | Llwyddodd y deintydd locwm i gyflwyno ei dystysgrif ddiweddaraf ar 10 Awst 2016, sef y diwrnod yn dilyn yr arolygiad. O hyn | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | wedi diweddaru ei hyfforddiant a rhaid meddu ar gofnod o'r hyfforddiant hwn, ac mae hyn ar gyfer unrhyw ddeintyddion locwm a staff dros dro hefyd. | (5)<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | ymlaen, rhaid i bob aelod o staff locwm a staff dros dro ddarparu ffolder o'r holl dystiolaeth ddiweddaraf o hyfforddiant gorfodol cyn dechrau gweithio.<br><br>Yn gyfrifol – Rheolwr y Practis a'r Swyddog Rheoleiddio<br><br>Amserlen – Medi 2016 | | |
| 11 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Safon 3.1 | Bydd cyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid yn dechrau unwaith y bydd y deintyddion newydd wedi dechrau a byddant yn cael eu cynnal bob mis gyda'u mentor. | Rheolwr Practis | Hydref 2016 |
| Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | | |
| 12 | Mae angen cyflwyno system arfarniadau blynyddol ar gyfer pob deintydd. | Safon 7.1<br><br>Safonau'r Cyngor | Bydd rheolwr cymorth clinigol yr ardal yn ymweld â phob deintydd er mwyn cynnal y rhain, ynghyd â darparu cynlluniau | Rheolwr Practis / Rheolwr Cymorth Clinigol | Hydref 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Deintyddol Cyffredinol 6.6 | datblygu gweithwyr. | | |
| 12 | Mae angen i'r practis sicrhau ei hunan fod statws imiwnedd pob aelod o'i staff yn ddigonol, yn benodol rhag hepatitis B. | Safon 1.1<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 9.2 | Mae'r practis bellach yn ymwybodol o fodolaeth iechyd galwedigaethol lleol er mwyn cefnogi a darparu unrhyw frechiadau, pigiadau atgyfnerthu a phrofion gwaed angenrheidiol.<br><br>Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y polisi sydd ar gael i'r staff. | Rheolwr Practis | Hydref 2016 |
| 13 | Rhaid i'r practis sicrhau bod y nodiadau a wneir o gyfarfodydd staff yn nodi'n glir pob trafodaeth a cham gweithredu. | Safon 7.1<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6 | Rydym wedi trafod pa mor bwysig yw darparu mwy o fanylion yn nodiadau cyfarfodydd y practis, a phwysigrwydd ystyried y gwersi a ddysgwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd i wella'r gwasanaeth.<br><br>Bydd y practis hefyd yn ystyried nodiadau'r cyfarfod blaenorol gan symud ymlaen i sicrhau bod pob cam gweithredu'n cael ei gynnwys. | Rheolwr Practis | Hydref 2016 |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ....Lisa O'Leary.......................................................................................

**Teitl:** .....Swyddog Rheoleiddiol.....................................................................................

**Dyddiad:** ..26.08.2016.........................................................................................